# AL AC ANT AC ARAD GOCH YN CYDWEITHIO AR SIOE THEATR NEWYDD SBON!

Bydd dau o gyflwynwyr poblogaidd S4C yn camu oddi ar y sgrin fawr ac yn mentro i'r llwyfan yn ystod tymor yr Hydref wrth iddynt ymddangos yn eu cynhyrchiad theatr cyntaf!

Does dim os nac oni bai bod Anthony Evans ac Alun Williams wedi hen arfer a diddannu cynulleidfaoedd led led Cymru ar eu cyfresi teledu 'STWFFIO' a 'STWNSH SADWRN'. Mae nhw hefyd yn hoff o her, wedi'r cyfan mae nhw wedi teithio i bellteroedd byd i flasu pob math o fwydydd egsotig ac afiach eu golwg, ond mae'r ddau yn cytuno mai'r sioe hon yw her fwyaf eu gyrfa hyd yma!

"Ma Al a fi wedi bod yn meddwl am ddatblygu sioe theatr ers sbel a ni'n falch iawn bod Cwmni Theatr Arad Goch wedi cytuno i gydweithio gyda ni i droi ein syniadau yn sgript ac yn sioe lwyfan. Ni wedi arfer actio lan i'r camera ond mae dysgu sgript awr a hanner o hyd a pherfformio i gynulleidfa fyw yn mynd i fod yn sialens!"

Llun: 'Fans' brwdfrydig yn cipio'r cyfle i gael llun gydag Anthony Evans wrth iddo lawnsio'r daith yn yr Eisteddfod yn Wrecsam.

Yn ystod y sioe cawn weld Al ac Ant yn trawsnewid yn ddau farchog drwg! Wrth geisio'i gorau i ddianc o furiau'r castell bydd y ddau yn derbyn sawl sialens er mwyn brwydro i fod y mwyaf dewr, y mwyaf clyfar, y mwyaf digri a'r mwyaf golygus!

Cogydd yw Anthony Evans, ac wedi defnyddio'i sgiliau coginio ar y sgrin fawr, bydd y thema o fwyta'n iach yn parhau yn y sioe lwyfan. Bydd cynnyrch cymreig gan yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr a'r bwydydd egsotig wrth fynd ati i wynebu'r sialensau.

Yr actores Lowri Sion o Drefach Felindre sydd wedi derbyn yr her o gadw trefn ar y ddau farchog wrth iddi chwarae rhan y 'Dywysoges Chwerw'. Y 'Dywysoges' ddewr sydd wedi derbyn yr her o gyfarwyddo'r sioe yw Angharad Lee, sydd wedi gweithio gyda Arad Goch ar sawl cynhyrchiad gan gynnwys 'Cwrw Chips a Darlith Deg', a 'SXTO', mae'n gyffrous iawn am y cynhyrchiad newydd.

"Mae cydweithio gyda chyflwynwyr yn hytrach nag actorion yn brofiad newydd, ond mae Al ac Ant yn llawn syniadau ac yn frwdfrydig tu hwnt. Mae'r ddau wedi cyfrannu llwyth o syniadau gret ar gyfer y sgript a'r wythnos hon bydd yr ymarferion go iawn yn cychwyn – digon o waith caled, ond digon o sbort hefyd fi'n credu!"

Wedi lawnsio'r daith yn yr Eisteddfod wythnos diwethaf mae'r adborth gan deuluoedd a 'fans' Al ac Ant wedi bod yn syfrdannol ac o ganlyniad mae'r tocynnau'n gwerthu'n gyflym.

**Bydd y sioe ar daith rhwng Medi 19 – Hydref 8fed.** Mae'r sioe yn addas i deuluoedd a phobl ifanc, a cynnhelir perfformiadau yn y lleoliadau canlynol;

**Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Pafiliwn Rhyl, Neuadd Dewi Sant Caerdydd, Canolfan y Celfyddydau Pontardawe, Theatr Mwldan, Theatr Felinfach, Theatr Soar Merthyr Tudfil, Theatr Elli, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Theatr y Ddraig Bermo, Neuadd Dwyfor Pwllheli, Galeri a Theatr Bro Alaw Bodedern.**

Hoffem ddiolch i'n noddwyr am gefnogi'r Cynhyrchiad hwn; Trioni, Calon Wen Organics, Caws Blaenafon a Chig Oen Carreg Las Preseli yn ogsytal ag S4C a'r Lolfa.

Am wybodaeth bellach ewch i'n gwefan www.aradgoch.org neu cysylltwch â Heulwen Davies, Swyddog Marchnata Arad Goch - heulwen@aradgoch.org/ 01970 617998.